“Gwenu gyda’ch llygaid”: Adroddiad cryno arolwg myfyrwyr AaGIC

TACHWEDD 202

YMATEBION I AROLWG AAGIC YNGLYN Â PHROFIADAU MYFYRWYR GOFAL IECHYD O GAEL EU HADLEOLI YN YSTOD CAM CYNTAF Y CYFNOD O ARGYFWNG

"Gwenu gyda'ch llygaid: Adroddiad Cryno Arolwg Myfyrwyr Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)[1]

Cyhoeddwyd yr Arolwg: 25.07.20. Daeth i ben: 01.09.20.

1. Cyflwyniad

Yn dilyn cyhoeddi *Cyd-ddatganiad ar ehangu'r gweithlu nyrsio yn y pandemig Covid-19* (19.03.20.) gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Prif Swyddogion Nyrsio, y Cyngor Deoniaid Iechyd (DU) a chyrff proffesiynol, a Safonau brys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth dilynol (25.03.20.), cafodd natur trefniadau'r rhaglen ar gyfer myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth cyn-cofrestru ei addasu i ganiatáu i fyfyrwyr dan gontract gael eu hadleoli i leoliadau arfer.

Gallai'r myfyrwyr hynny yn chwe mis olaf eu blwyddyn olaf ddewis cael eu gosod ar gontractau Band 4 (37.5 awr) am gyfnod o chwe mis, gyda dyddiad cwblhau contractau yn hwyluso symudiad i swyddi parhaol drwy Gynllun Symleiddio i Fyfyrwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Gall y myfyrwyr hynny yn chwe mis cyntaf eu blwyddyn olaf a myfyrwyr yn eu hail flwyddyn ddewis i ymgymryd ag adleoliadau dan gontract Band 3 am gyfnod o dri mis, gan rannu eu horiau arfer a'u hastudiaethau academaidd 80:20.

Roedd nifer o gyd-gyfathrebiadau (*Canllawiau Cefnogi Myfyrwyr*; *Papur briffio ar gyfer Partner Arfer ac Arweinwyr Addysg*), a gyhoeddwyd gan AaGIC, Llywodraeth Cymru, Cyngor Deoniaid Cymru, y Colegau Brenhinol ac Undebau Llafur a oedd yn helpu i hysbysu penderfyniadau a dewis y myfyrwyr i optio i mewn neu allan o'r trefniadau rhaglen diwygiedig.

Gofynnwyd i'r myfyrwyr hynny a oedd yn optio i mewn gyda 'Hwb-COVID' Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a sefydlwyd i ddechrau'r broses o gynhyrchu contractau i fyfyrwyr mewn cydweithrediad â Gweithlu a Thimau Datblygu Sefydliadol y Bwrdd Iechyd Lleol. Er mwyn sicrhau cysondeb, gan ddilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru (04.05.20.), dechreuodd y myfyrwyr ar gontractau dderbyn taliadau o 27.04.20.

O ganlyniad i hyn, roedd AaGIC yn awyddus i werthuso profiadau'r myfyrwyr o gael eu hadleoli yn ystod y cyfnod o argyfwng. Datblygwyd cyfres o ddatganiadau graddfa Likert a dau gwestiwn pen agored gan dîm cynllunio arolygon mewnol. Bu AaGIC yn ymgysylltu hefyd â Health Education England a Chyngor Deoniaid y DU i drafod cysondeb dyluniad arolwg AaGIC o gymharu ag ymarfer tebyg a gynhaliwyd fel rhan o brosiect RePAIR yn Lloegr ('Lleihau Atrisiwn Cyn-Cofrestru a Gwella Cyfraddau Cadw).

Dosbarthwyd yr arolwg (gan ddefnyddio Microsoft Forms) ar 25.07.20. i bob myfyriwr gofal iechyd a oedd wedi 01.09.20.

[1] Daw "Gwenu gyda'ch llygaid" o ymateb yn yr arolwg a oedd yn ymwneud â phwysigrwydd cyfathrebu rhyngbersonol a sut y gallai gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol gyfaddawdu hynny.

2. Y Sampl a'r gyfradd ymateb

Mae data adleoli Hwb-COVID Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn cadarnhau y cafodd 2,346 eu hadleoli yn ystod cam cyntaf y cyfnod o argyfwng (*yn seiliedig ar ddata ESR Cymru gyfan o fyfyrwyr a dalwyd ar ôl cael eu hadleoli ar 04.08.20).* Derbyniwyd 1,041 ymateb i'r arolwg (y mwyafrif helaeth o'r meysydd arfer nyrsio a bydwreigiaeth), a oedd yn adlewyrchu 44.5% o'r myfyrwyr a oedd wedi'u hadleoli. Nod yr arolwg oedd gwerthuso'r gwasanaeth felly dylid ystyried y canfyddiadau a'r goblygiadau yn y termau hynny. Cafodd yr arolwg ei dargedu hefyd at y myfyrwyr hynny sydd wedi cofrestru gyda Hwb-COVID NWSSP ac nid oedd yn cynnwys unigolion nad oeddent yn gallu neu a oedd wedi dewis peidio optio i mewn i'r trefniadau rhaglen diwygiedig.


3. Gwybodaeth demograffeg

Roedd adran gyntaf yr arolwg yn cynnwys gwybodaeth demograffeg y Brifysgol yr oedd y myfyriwr yn ei mynychu, eu maes arfer, eu cam ar y rhaglen, Cohort mynediad a Bwrdd Iechyd (neu leoliad arall) y cawsant eu hadleoli iddynt:

1. Which University are you attending?

More Details


Bangor University	163
Cardiff University	272
Swansea University	326
University of South Wales	274
Open University	5
Glyndwr University	1



2. Which course are you studying?

More Details

Adult Nursing	641
Child Nursing	113
Learning Disability	34
Mental Health Nursing	173
Midwifery	80



3. Which year are you in?

More Details


Year 2	529
Year 3	512



4. Which intake of the course are you in?

More Details


September	837
March	204



5. Which Health Board are you working in?

More Details

Aneurin Bevan	158
Besti Cadwaladr	163
Cardiff and Vale	222
Cwm Taf	170
Hywel Dda	119
Powys	16
Swansea Bay	192
Velindre	1



4. Sgorau datganiadau'r Arolwg

Roedd Cwestiwn 6 yn cynrychioli rhan fawr o'r arolwg a oedd yn gofyn i'r myfyrwyr sgorio eu hymatebion 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf' yn erbyn 15 o ddatganiadau a oedd yn gysylltiedig â'r cofnod adleoli dan gontract.

Roedd y datganiadau'n canolbwyntio ar yr ymdeimlad o groeso a pherthyn a gafodd y myfyrwyr yn yr ardal adleoli, eu gallu i weithio i gyflawni canlyniadau dysgu ymarferol, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, canfyddiadau o weithio o fewn terfynau eu cymhwysedd, eu barn am sefydlu ac ymgyfarwyddo â'r lleoliad arfer a mynediad at seilwaith o gymorth.

Cafodd y datganiadau a'r cwestiynau yn arolwg AaGIC eu hystyried yn nhermau eu perthnasedd i delerau contractau adleoli myfyrwyr a'u cymhwysedd i gyd-destun a gofynion *Safonau Brys ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth* y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Cymharwyd y datganiadau olaf hefyd ag arolwg Addysg Iechyd Lloegr yn dilyn trafodaethau rhwng y gwledydd.


Mae Tabl 1 yn darparu data rhifol ar ymatebion y myfyrwyr i'r arolwg.

Tabl 1. Datganiad rhifol yn sgorio'r ymatebion.

C6. Ar gyfer pob datganiad, nodwch yr ateb sy'n cynrychioli eich profiad chi orau

	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno / anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cefais fy nghroesawu fel rhan o dîm y lleoliad.	641	302	57	32	6
Rhannodd y staff eu harbenigedd er mwyn gwella fy mhrofiad dysgu.	601	315	74	38	10
Roedd y cyfleoedd dysgu yn y lleoliad a oedd ar gael yn fy ngalluogi i weithio i gyflawni fy nghanlyniadau arfer.	474	324	115	92	33
Roedd fy ngoruchwylwyr yn cydnabod, o dan fy nhelerau adleoli myfyrwyr, bod yn rhaid i mi barhau i ddysgu a gweithio o fewn terfynau fy nghymhwysedd.	522	293	107	84	32
Rwy'n fodlon gyda'r hyfforddiant sefydlu ac ymgyfarwyddo a dderbyniais yn y lleoliad.	484	327	108	90	29
Rwy'n hapus gyda'r lefel gyffredinol o oruchwyliaeth a dderbyniais yn ystod y lleoliad.	493	314	113	74	44
Roeddwn yn teimlo fy mod wedi fy nghefnogi yn y lleoliad.	546	304	92	65	31
Roedd diwylliant yr amgylchedd dysgu yn cefnogi arferion cynhwysol, cydraddoldeb ac amrywiaeth.	550	358	93	24	13
Roedd yn rhwydd i mi addasu i natur y gwaith y gofynnwyd i mi ei wneud.	538	402	54	36	8
Roedd gennyf fynediad at ddysgu ar-lein a chefnogaeth y brifysgol er mwyn parhau ag elfen academaidd fy rhaglen.	328	455	154	63	38
Rwy'n hyderus y byddwn wedi derbyn cefnogaeth gan fy ngoruchwylwyr pe byddai wedi bod angen i mi godi pryder.	503	359	104	56	16
Derbyniais adborth rheolaidd gan staff y lleoliad.	427	379	111	85	36
Roedd gennyf fynediad at gefnogaeth bersonol gan fy mhrifysgol yn ystod y cyfnod adleoli.	315	428	167	84	44
Roedd gofal a oedd yn seiliedig ar yr unigolyn ac ar werthoedd yn amlwg yn ystod fy mhrofiad adleoli i leoliad.	532	421	61	19	5

4.1 Cynrychiolaeth weledol o'r ymatebion i ddatganiadau'r arolwg gyda sgorau dangosol



Derbyniodd pob un o'r datganiadau sgôr gadarnhaol 'cytuno'n gryf' neu 'cytuno' ym mhob categori. Wrth agregu'r sgorau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno' fel dangosydd cyffredinol o safle'r ymatebion, roedd y data hwn fel a ganlyn[2]:

- dywedodd 91.81% o'r ymatebwyr bod gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar werthoedd yn amlwg yn y lleoliad arfer.
- dywedodd 71.58% bod ganddynt fynediad at gefnogaeth bersonol gan eu Prifysgol yn ystod y cyfnod adleoli.
- derbyniodd 77.65% adborth rheolaidd gan staff y lleoliad.
- roedd 83.04% yn hyderus y byddent wedi derbyn cefnogaeth gan eu goruchwylwyr pe byddent wedi gorfod codi pryder.
- dywedodd 75.43% bod ganddynt fynediad at ddysgu ar-lein a chefnogaeth y brifysgol er mwyn parhau ag elfen academaidd eu rhaglen.

[2] Dylid ystyried y data hwn fel cyfuniad cynlluniedig o gategorïau yn hytrach nac unrhyw honiadau o arwyddocâd ystadegol.

- roedd 90.56% o'r ymatebwyr o'r farn eu bod wedi gallu addasu i natur y gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud.

- dywedodd 88.33% bod diwylliant yr amgylchedd dysgu yn cefnogi arferion cynhwysol, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

- dywedodd 81.89% eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y lleoliad.

- roedd 77.75% yn hapus gyda'r lefel gyffredinol o oruchwyliaeth a gawsant yn ystod y lleoliad.

- roedd 78.15% yn fodlon gyda'r hyfforddiant sefydlu ac ymgyfarwyddo a gawsant i amgylchedd y lleoliad.

- dywedodd 78.52% bod goruchwylwyr yn cydnabod, o dan delerau'r adleoliad, bod yn rhaid i fyfyrwyr dderbyn cefnogaeth i weithio at ganlyniadau dysgu a gweithio o fewn terfynau eu cymhwysedd.

- dywedodd 76.88% bod y cyfleoedd dysgu ar leoliad a oedd ar gael wedi galluogi'r myfyrwyr i weithio i gyflawni canlyniadau dysgu ymarferol.

- dywedodd 88.25% bod staff yn rhannu eu harbenigedd er mwyn gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

- dywedodd 90.85% o'r ymatebwyr eu bod wedi'u croesawu fel rhan o dîm y lleoliad.

4.2 Crynodeb o'r datganiadau a dderbyniodd sgôr

Mae'n werth nodi, o ystyried natur adleoli myfyrwyr yng nghyd-destun y pandemig, bod derbyn croeso fel rhan o dîm y lleoliad, gallu i addasu, a sylwadau'r ymatebwyr bod gofal a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar werthoedd yn amlwg yn y lleoliadau arfer, wedi derbyn sgorau uchel iawn. Yn yr un modd, roedd cynhwysiant diwylliannol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, teimlo eu bod yn gallu codi pryder a pharodrwydd y staff i gynorthwyo'r myfyrwyr a rhannu eu harbenigedd wedi derbyn gwerthusiad cadarnhaol hefyd.

Nodwyd sgorau cadarnhaol tebyg yn nhermau'r lefel gyffredinol o oruchwyliaeth a dderbyniodd yr ymatebwyr yn ystod eu cyfnod adleoli, a graddau'r hyfforddiant sefydlu ac ymgyfarwyddo cyn cael eu hadleoli i'r lleoliadau arfer, y gefnogaeth a roddwyd i fyfyrwyr i weithio at gyfleoedd dysgu ymarferol, adborth rheolaidd, mynediad at ddysgu a chefnogaeth academaidd ar-lein a chydnabyddiaeth gan oruchwylwyr arfer o derfynau cymhwysedd y myfyrwyr o ystyried y telerau nad oedd ganddynt statws 'ychwanegol' a chydnabyddiaeth ariannol yr adleoliad.

Fodd bynnag, nid yw'r niferoedd ymateb llai lle'r oedd myfyrwyr yn nodi bod y datganiadau'n 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' yn llai arwyddocaol. Nodir

naws y sgorau hyn yn yr adran data ansoddol a thematig ('adran cyfathrebu â myfyrwyr') ac fe'i hymgorfforir o fewn y casgliadau a'r goblygiadau i randdeiliaid.


5. Cyfarpar Diogelu Personol a phrofion COVID-19

Roedd adran nesaf yr arolwg yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) a gwybodaeth a mynediad at brofion COVID.

7. Were you provided with PPE that was suitable for your placement area?

More Details


Yes	994
No	35
Not required	12



8. Did your placement area inform when you should, and how you could access a test for COVID 19?

More Details

Yes	680
No	361



9. If you accessed a test for COVID 19 was the process quick and easy?

More Details

Yes	283
No	26
I haven't taken a test	732



Mae C8 yn nodedig oherwydd bod 34.68% o'r ymatebwyr wedi datgan nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth gan y lleoliad ar sut i gael mynediad at brofion coronafeirws.


6. Effaith COVID-19 ar barhad myfyrwyr ar y rhaglen.

Roedd adran nesaf yr arolwg yn canolbwyntio ar gymhelliant yr ymatebwyr i barhau ar eu rhaglen ers dechrau'r pandemig. Gofynnwyd cwestiwn 'Ie/Na' i'r myfyrwyr (C10) ac yna gwahoddiad i ehangu ar eu penderfyniad gydag ymatebion testun agored (C11). Cafodd y data ansoddol hwn ei archwilio er mwyn nodi themâu cyffredin.

10. Since February 2020 (the start of the pandemic) have you ever considered leaving the course/training programme?

More Details

Yes	343
No	698



Data ansoddol testun agored

11. Allwch chi ehangu ar eich ateb?

Mae Cwestiwn 11 yn cyfeirio at ffactorau a ddylanwadodd ar ystyriaethau'r myfyrwyr o ran a oeddent wedi ystyried gadael eu rhaglen ers dechrau'r pandemig. Darparodd hyn nifer o ymatebion testun agored, a ddehonglwyd gan ddefnyddio dadansoddiad cyd-destun thematig. Cafodd yr ymatebion eu datblygu ymhellach yn gategorïau dealltwriaeth gyffredinol.

Cyflwynir y data hwn o dan benawdau thematig, sydd wedi'u crynhoi yn Ffigur 2, ac a ddisgrifir ymhellach gan ddefnyddio dyfyniadau ymatebwyr amrywiol. Cafodd y penawdau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ('penderfyniad personol', 'materion cyfathrebu', 'seilwaith cefnogaeth'), eu datblygu ar ôl codio'r ymatebion cychwynnol gan ddefnyddio dull dehongli.

Yn dilyn dadansoddiad o'r cynnwys thematig (gan gynnwys adolygiad mewnol y tîm a 'gwirio synnwyr') datblygwyd nifer o gysyniadau a chategorïau cyffredinol o ddealltwriaeth. Mae'r data hwn yn cael ei drefnu a'i gyflwyno fel fframwaith thematig (Tabl 2). Dylid ystyried cynrychiolaeth y data testun agored (*n=553*) yn nhermau'r dull deongliadol a fabwysiadwyd ac mewn cysylltiad â'r gyfradd gyffredinol o ymatebion i'r arolwg myfyrwyr (*n=1-41*). Nid oedd y fethodoleg o werthuso'r gwasanaeth yn caniatáu i feysydd arfer gael eu hidlo, ac felly mae'r data'n cynrychioli ymatebion cyffredinol y myfyrwyr.

Mae ystyriaethau'r ymatebwyr i optio i mewn i'r trefniadau adleoli wedi datgelu nifer o heriau a materion cefnogaeth sefydliadol personol a phroffesiynol. Ar yr un pryd, er gwaethaf yr amgylchiadau anffafriol, mae ymatebwyr y myfyrwyr hefyd wedi'u fframio gan benderfyniad personol i barhau i weithio i gyflawni gofynion y rhaglen ac

uchelgais i gyfrannu at wasanaethau gofal iechyd yn ystod cyfnod o hanes i'r gwasanaeth gofal iechyd.

Tabl 2. Ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ystyriaethau'r myfyrwyr o ran a oeddent wedi ystyried gadael eu rhaglen ers dechrau'r pandemig.

Cysyniadau	Categorïau o Ddealltwriaeth	Pwnc
Ymdeimlad o ddyletswydd	**Penderfyniad personol**	**Ffactorau a ddylanwadodd ar ystyriaethau myfyrwyr o ran a oeddent wedi ystyried gadael eu rhaglen**
Bod yn rhan o rywbeth		
Gwytnwch		
Atgyfnerthu gyrfa		
Adleoli lleoliadau	**Cyfathrebu gyda'r myfyrwyr**	
Ansicrwydd ynghylch eu rôl		
Negeseuon amwys		
Materion contract		
Pwysau academaidd		
Pryderon sy'n gwrthdaro	**Seilwaith cefnogaeth**	
Gweithio drwy bryderon		
Ymdeimlad o Berthyn		
Cyfranogiad gweithredol		

6.1 Penderfyniad personol

Wrth benderfynu ymuno â'r trefniadau adleoli mae'r ymatebwyr wedi'u dylanwadu'n fawr iawn gan ymdeimlad o ddyletswydd, bod yn rhan o gyfnod pwysig yn hanes y gwasanaethau gofal iechyd, cydnabyddiaeth o angen am wytnwch a gallu profi cyfleoedd dysgu uwch yn ystod amodau pandemig.

6.1.1 Ymdeimlad o ddyletswydd

Mae parodrwydd i gymryd rhan wedi'i hybu gan ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a phroffesiynol y myfyrwyr i helpu i gyflenwi gwasanaeth mewn amodau pandemig. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr, pan oedd amgylchiadau'r myfyrwyr yn caniatáu hynny, roedd ymdeimlad o rwymedigaeth i fod yn rhan o'r gwasanaethau gofal iechyd, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol:

"Roeddwn yn gweld y pandemig hwn fel cyfle i wynebu'r her a bod yn rhan o'r gwaith o achub bywydau a chefnogi'r system gofal iechyd."

"Rwy'n teimlo fy mod yn ymrwymedig i fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol a beth mae hynny'n ei olygu, felly roeddwn o'r farn ei bod gennyf ddyletswydd i ofalu a pharhau i ddarparu cymorth i'r GIG yn ystod y pandemig."

"Mae'r pandemig yn cynrychioli her sy'n wynebu'r GIG yn awr ac mae'n debyg y bydd yn parhau i gael ei herio ganddo. Fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol, roeddwn yn credu bod gennyf rwymedigaeth foesol a phroffesiynol i gyfrannu a lleddfu'r baich y mae'r sefyllfa hon wedi'i roi ar ein gwasanaeth iechyd."

"Byddwn wedi ymuno heb dâl fel rhan o fy astudiaeth a'm lleoliadau parhaus."

6.1.2 'Bod yn rhan o rywbeth'

Mae'r penderfyniad i optio i mewn i'r trefniadau adleoli dan gontract hefyd yn cael ei ddylanwadu hefyd gan fod yn rhan o foment mewn hanes gofal iechyd. Ceir ymdeimlad o gydnabyddiaeth bod y pandemig yn gyfnod arwyddocaol sy'n effeithio ar y gwasanaethau gofal a bod adleoli myfyrwyr yn rhan hollbwysig o'r ymdrechion hyn:

"Fe wnes i fwynhau fy rôl fel myfyriwr ac yn teimlo anrhydedd o fod yn rhan o rywbeth. Roeddwn yn teimlo'n falch iawn o gefnogi'r GIG yn ystod y pandemig hwn."

"Er fy mod yn nerfus o weithio yn ystod y pandemig, ni fyddwn yn newid hyn. Roeddwn yn awyddus i arfer er mwyn helpu'r GIG cymaint ag y gallwn yn ystod y cyfnodau anodd hyn."

"Roeddwn yn teimlo ei bod yn anrhydedd gweithio heb statws 'ychwanegol'. Roeddwn yn derbyn cefnogaeth ac yn parhau i fod yn fyfyriwr, fodd bynnag roeddwn yn sicr yn rhan o dîm."

"Roeddwn yn teimlo y byddai gweithio ar leoliad estynedig ar hyd y pandemig Covid-19 yn gyfle unwaith mewn bywyd."

"Roeddwn yn teimlo sicrwydd gan fy nghydweithwyr ac fel aelodau o staff profiadol, roeddent yn agored ac yn onest ynghylch yr hyn nad oeddent yn ei wybod yn ystod y cyfnod hwn a beth yr oedd angen iddynt ei ddysgu er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn gwneud i mi deimlo nad oeddwn ar fy mhen fy hun."

6.1.3 Gwytnwch

Ochr yn ochr ag ymdeimlad o rwymedigaeth, roedd yr ymatebwyr hefyd yn ymwybodol o dynnu ar eu hadnoddau wrth gefn i ymdopi â'r amgylchiadau anodd. Ceir cydnabyddiaeth bod angen ymdeimlad o wytnwch personol ar gyfer gwaith gofal iechyd cyn, yn ystod a'r tu hwnt i'r pandemig:

> *"Ni fyddwn yn gallu gadael fy swydd yn ystod pandemig pan wyf yn nyrs gofrestredig, felly nid oeddwn eisiau gadael y cwrs fel nyrs dan hyfforddiant am yr un rhesymau. Mae wedi bod yn brofiad sy'n agor llygad."*

> *"Ni wnes ystyried gadael y rhaglen nyrsio unwaith, er eu bod wedi bod yn rhai o'r misoedd mwyaf gofidus ac ansicr yn fy mywyd. Roeddwn yn poeni am fy nheulu a fi fy hun, ond roeddwn eisiau gweithio yn ystod y pandemig a pharhau ar y cwrs."*

> *"Mae yna elfen o risg bob amser o weithio fel nyrs, ac mae yna rywfaint o aberth personol hefyd. Byddai methu ag ymdopi â'r lefel honno o gyfrifoldeb fel myfyriwr yn golygu i mi na fyddwn yn barod nac hyd yn oed yn addas i fod yn nyrs gofrestredig."*

> *"Fel darpar nyrs, dyma wyf wedi cofrestru i'w wneud. Roeddwn eisiau cwblhau fy nghwrs a chael profiad ar gyfer y dyfodol. Er bod y profiad wedi bod yn heriol iawn ar adegau, ni wnaeth hyn effeithio ar fy mrwdfrydedd a'm penderfyniad i ddod yn nyrs gofrestredig."*

6.1.4 Atgyfnerthu gyrfa

Mae'r ymatebwyr hefyd yn dweud bod gwerth y profiadau personol a phroffesiynol maent wedi'u cael yn ystod y cyfnod adleoli wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau i barhau ar y rhaglen. Mae barn y gall amodau argyfwng y pandemig ddarparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr hefyd.

> *"Penderfynais fy mod eisiau bod yn nyrs ac nid wyf yn credu y byddai pandemig yn newid hynny. Mae pethau'n newid drwy'r amser ym maes gofal iechyd ac er bod hyn yn gyfnod ansicr roedd yn gyfle dysgu da iawn. Os rhywbeth, rwy'n teimlo'n fwy brwdfrydig fyth i ddysgu a helpu'r rhai mewn angen."*

> *"Ni wnes ac ni fyddaf yn ystyried gadael y cwrs oherwydd i mi mae'n alwad i ddysgu mewn theori ac yn ymarferol, a beth yw'r ffordd orau o ddarparu cymorth i gefnogi dyngarwch gofal, yn arbennig i'r rhai sy'n agored i niwed."*

> *"Dyma'r yrfa yr wyf wedi'i dewis ac roeddwn eisiau helpu lle gallwn. Hefyd, roedd yn brofiad dysgu da mewn cyfnod o argyfwng."*

"Nid wyf wedi teimlo o gwbl fy mod wedi camu yn ôl o fy lleoliad neu fy astudiaethau. Rwy'n hapus bod gweithio gyda'r staff yn ystod pandemig wedi rhoi mwy o hyder i mi ac wedi gwneud i mi deimlo y gallaf wneud hyn."

"Nid yw fy mhenderfyniad i fod yn fydwraig wedi gwanhau o gwbl. Mae clefydau pandemig yn digwydd ac mae'r profiadau dysgu rwyf wedi'u cael yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn werthfawr iawn."

6.2 Cyfathrebu â'r myfyrwyr

Er bod penderfyniad personol wedi bod yn ysgogwr allweddol i'r myfyrwyr barhau ar eu rhaglen, cafodd penderfyniad rhai o'r ymatebwyr i gofrestru ar gyfer y trefniadau adleoli ei ddylanwadu hefyd gan nifer o faterion cyfathrebu rhwng sefydliadau a myfyrwyr.

Roedd hyn yn cynnwys pryderon am ddyraniadau adleoli ac adleoliadau dilynol, canfyddiadau o'r hyn a ddisgwyliwyd o'r myfyrwyr, ansicrwydd ynghylch rolau yn ymarferol, negeseuon sefydliadol amwys, materion ynglŷn â'r contract adleoli a phwysau academaidd:

6.2.1 Adleoli lleoliadau

Mae amheuon ynghylch cofrestru wedi'u heffeithio gan ganfyddiadau ynghylch amser arwain byr cyn cael eu hadleoli, gwybodaeth gyfyngedig am leoliadau adleoli, ansicrwydd ynghylch dyddiadau dechrau a'r awyrgylch rhybudd uwch ar ddechrau'r pandemig.

Mae'r ffaith bod lleoliadau arfer wedi'u cau neu wedi'u hail-ddynodi fel ardaloedd COVID-19 a'r effaith a gafodd hyn ar adleoliadau rhai myfyrwyr yn faes pryder pellach sydd wedi effeithio ar benderfyniadau'r ymatebwyr:

"Roedd yna ychydig wythnosau o beidio gwybod beth oedd yn digwydd. Ar y pwynt hwn roedd nifer yr achosion o'r feirws ar ei bwynt uchaf ac roedd lefelau gorbryder uchel. Roedd cymaint o ansicrwydd ynglŷn â'n lleoliadau gyda dyddiadau'n newid drwy'r amser ac roeddwn yn poeni mwy a mwy am bopeth."

"Oherwydd bod ardal fy lleoliad yn cael ei chau'n rheolaidd, cefais fy adleoli i wahanol wardiau. Roedd y diffyg parhad a'r ansicrwydd ynghylch yr hyn a ddisgwyliwyd gennyf mewn gwahanol ardaloedd yn cynyddu fel lefelau straen a gorbyder yn fy rôl."

"Nid oeddwn yn siŵr beth fyddai'n digwydd pe na allwn optio i mewn ar gyfer lleoliad estynedig, a oedd yn golygu nad oedd llawer ohonom yn gwybod a fyddai'n rhaid i ni adael y cwrs o ganlyniad i optio allan."

"Mae gennyf deulu ac roeddwn yn addysgu fy mhlant gartref ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gymudo. Cafodd fy lleoliad ei newid cyn i ni ddechrau, yna cefais fy rhoi ar leoliad yr oeddwn eisoes wedi bod arno. Oni bai am y tîm gwych a fu'n gefn i mi, byddwn wedi rhoi'r gorau i fy astudiaethau."

6.2.2 Ansicrwydd ynglŷn â rôl

Roedd gwneud penderfyniadau i optio i mewn wedi'u dylanwadu hefyd gan ansicrwydd ar ôl i fyfyrwyr gael eu hadleoli i arfer. Mae pryderon rhai o'r myfyrwyr wedi'u hysgogi gan delerau eu hadleoliad ac ansicrwydd ynglŷn â statws myfyrwyr:

"Roeddwn yn teimlo y gallwn fod wedi gweithio ar y banc yn unig fel gweithiwr cymorth gofal iechyd yn ystod y cyfnod hwn. Nid bai ardaloedd fy lleoliadau oedd hyn o gwbl, fe wnaethant ymdrechu'n galed iawn i mi wneud rôl a oedd yn cynnwys mwy o nyrsio ond, mae bod yn rhan o'r niferoedd yn gwneud hynny'n anodd."

"Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghynnwys yn y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn rhy aml ac roedd yna ormod o shifftiau pan nad oedd yn teimlo bod digon o staff hyfforddedig ar ddyletswydd."

"Oherwydd fy mod wedi cael lleoliad yn fy ngweithle fy hun, roeddwn yn cael fy adleoli fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn hytrach na myfyriwr, ond roedd myfyrwyr eraill nad ydynt yn gweithio yn yr adran fel arfer yn cael cymorth eu goruchwylwyr."

6.2.3 Negeseuon amwys

Cyfeiriodd yr ymatebwyr sawl gwaith at ddiffyg eglurder gan eu prifysgol ynghylch yr amgylchiadau adleoli a chafodd hyn effaith negyddol ar gynlluniau tymor byr a thymor hwy'r myfyrwyr:

"Roeddwn yn credu bod y broses gyfathrebu yn anodd rhwng y Brifysgol a'r myfyrwyr yn ogystal â rhwng y brifysgol a'r Byrddau Iechyd o ran y disgwyliadau o'r rôl nyrs dan hyfforddiant. Er y gwnaed ymgais gan rai aelodau o staff i sicrhau eglurder ar ein cyfer, roedd yr amser a gymerodd hynny'n golygu ein bod eisoes hanner ffordd drwy'r lleoliad pan gawsom y wybodaeth oedd ei hangen arnom."

"Weithiau roedd gormod o wybodaeth a chanllawiau gwrthgyferbyniol gan y brifysgol a'r partïon eraill dan sylw. Fe

achosodd hyn lawer o straen a phryder diangen i lawer o fyfyrwyr, ac mae wedi gwneud i mi ail-feddwl fy ngyrfa."

"Rwy'n deall ei fod yn gyfnod digynsail, ond roedd ansicrwydd enfawr ynghylch beth oedd yn digwydd a chefais fy siomi ychydig gan y gefnogaeth a gawsom gan y brifysgol."

"Roeddem yn teimlo na chawsom gyfarwyddyd clir ynghylch lle'r oeddem yn mynd a beth fyddwn yn ei wneud. Roedd yn teimlo fel bod yr holl addysg blwyddyn 2 wedi'i gwthio i flwyddyn 3 ac mae'r cwrs wedi'i ymestyn yn awr ac mae hyn wedi effeithio ar fy nghynlluniau."

6.2.4 Materion contract

Yn dilyn y cynnig i fyfyrwyr gofal iechyd yng Nghymru optio i mewn a sefydliad Hwb-COVID NWSSSP ar gyfer cofrestru'r bwriadau hyn, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod diffyg eglurder ynglŷn â'r trefniadau contract hefyd wedi effeithio ar eu pryderon:

"Mae wedi bod yn gyfnod o straen cynyddol i bawb, fodd bynnag, fel myfyriwr nid oeddwn yn credu fy mod wedi derbyn gwybodaeth neu ddiweddariadau digonol am ddyddiadau dechrau a chwblhau ein contract. Rydym ar gontractau Band 3 a bu oedi wrth dalu rhai o'r myfyrwyr."

"Roedd yn gyfnod heriol gyda llawer o bolisïau newydd i'w dilyn. Pan ddaethom yn weithwyr Band 4 a dechrau cael ein talu, roedd dryswch ynghylch a ddylem fod yn Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd neu a oeddem yn parhau i fod yn nyrsys dan hyfforddiant."

"I mi, nid oedd yn ddewis optio allan. Nid oedd llawer o waith banc gofal iechyd arferol ar gael felly roeddwn yn teimlo bod gennyf ddewis i optio i mewn neu gymryd blwyddyn i ffwrdd heb unrhyw gefnogaeth ariannol neu incwm."

"Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i ni gael cyswllt penodol er mwyn trefnu'r taliadau contract. Bu'n rhaid i mi aros am daliad am gryn amser."

6.2.5 Pwysau academaidd

I rai o'r myfyrwyr ar eu hail flwyddyn neu yn ystod chwe mis cyntaf eu blwyddyn olaf, a oedd wedi'u hadleoli ar drefniant cymhareb 80:20, roedd ymdeimlad bod y disgwyliadau academaidd parhaus a oedd yn gysylltiedig â'u rhaglen yn achosi problemau ac roedd hyn wedi dylanwadu ar eu profiad adleoli:

"Er bod cymorth ar gael, roeddwn yn cael anhawster mawr wrth geisio gweithio'n ymarferol, cynnal fy hunan-gymhelliant ac yna

gweithio ar y dysgu ar-lein, yn arbennig pan oedd y plant i ffwrdd o'r ysgol ac roedd angen cymorth arnyn nhw hefyd. Ar adegau roedd hyn yn teimlo'n amhosibl."

"Rwy'n teimlo y gellid bod wedi gwneud mwy i leihau'r pwysau ar fyfyrwyr drwy ysgafnhau baich y pwysau o ran gofynion theori'r cwrs, er enghraifft newid dyddiadau ar gyfer cyflwyniadau. Cefais anhawster i ymdopi â'r lleoliad a'r baich gwaith theori."

"Roedd y gwaith academaidd yr oedd disgwyl i mi ei wneud yn aml yn cymryd mwy o amser na'r 20% o amser academaidd a ddyrannwyd fel rhan o'r contract. Yn ystod y cwrs nid ydym wedi cael profiad o'r blaen o astudio'r un pryd â bod ar leoliad ac roeddwn yn rhuthro drwy'r amser ac yn teimlo fy mod ar ei hôl hi."

6.3 Seilwaith cymorth

Roedd y ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ystyriaethau myfyrwyr, o ran a oeddent wedi ystyried gadael eu rhaglen, hefyd yn canolbwyntio ar y graddau o seilwaith personol a phroffesiynol o'u hamgylch. Mae hyn yn gysylltiedig â'r pryder ychwanegol ynghylch pryderon cyferbyniol, teimlo eu bod yn gallu gweithio drwy faterion personol, ymdeimlad o berthyn wrth arfer, a chael eu cefnogi i gyfranogi'n weithredol mewn profiadau dysgu mewn cyfnod eithriadol.

6.3.1 Pryderon cyferbyniol

Roedd nifer o'r myfyrwyr yn ymgymryd ag adleoliadau ac yn ceisio delio â phryderon personol cyferbyniol iawn yr un pryd:

"Collais fy nhad i COVID-19, ac roeddwn yn ystyried o ddifri gadael y cwrs oherwydd ansicrwydd aruthrol popeth a'r hyn a ddisgwylid gennyf."

"Roedd fy rhieni'n anghytuno â'm penderfyniad i optio i mewn ac roedd gennyf fy materion iechyd meddwl fy hun. Ond nid oeddwn eisiau rhoi'r gorau i nyrsio."

"Roeddwn yn poeni sut y byddai'r pandemig yn effeithio ar fy nysgu. Roeddwn yn poeni hefyd sut y byddai'n effeithio ar fy iechyd pe byddwn yn cael COVID."

6.3.2 Gweithio drwy bryderon

Er bod effeithiau pryderon cyferbyniol yn ychwanegu at bryderon myfyrwyr ynghylch cael eu hadleoli, roedd barn hefyd bod y teimladau hyn yn cael eu lliniaru drwy gael cyfle i fuddsoddi yn y gwaith o gyflenwi gofal a gwaith tîm. Soniodd nifer o'r myfyrwyr am y ffordd y gwnaeth seilwaith cefnogol eu galluogi i weithio drwy eu

pryderon personol a bod hynny wedi cyfrannu at eu penderfyniad i barhau gyda'u rhaglen:

> *"Yn ystod y pandemig roeddwn yn teimlo'n agored i niwed ar y lleoliad ar adegau, ond lleihaodd fy mhryderon wrth i mi weithio mwy ar y ward a theimlo fy mod yn gydweithiwr."*
>
> *"Roeddwn yn hapus i barhau i astudio a gweithio oherwydd byddai wedi bod yn brofiad da i mi ac, oherwydd y gefnogaeth a gefais, mae hynny wedi bod yn wir."*
>
> *"Er fy mod yn bryderus iawn, rwy'n teimlo bod y pandemig hwn wedi bod yn fendith gudd, oherwydd mae wedi ailgynnau fy edmygedd o nyrsio ac wedi rhoi pwrpas i mi."*

6.3.3 *Ymdeimlad o berthyn*

Roedd yna ymdeimlad hefyd bod amodau'r pandemig wedi atgyfnerthu teimlad o gysylltiad proffesiynol a chwmnïaeth. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod y gefnogaeth a gawsant gan dimau staff wedi cynyddu eu teimladau o berthyn mewn lleoliadau arfer:

> *"Roeddwn yn teimlo fy mod wedi fy nghefnogi'n llwyr ac ni allwn fod wedi gofyn am fwy. Byddwn wrth fy modd yn dychwelyd, hyd yn oed pe byddai pandemig arall."*
>
> *"Roeddwn yn credu bod y pandemig wedi dod â'r staff nyrsio yn agosach at ei gilydd. Fe wnaeth i mi sylweddoli ein bod yn gallu addasu, cyfathrebu a chefnogi ein gilydd mewn amgylchiadau anodd hefyd."*
>
> *"Rwyf wedi bod wrth fy modd ar fy lleoliad ac rwy'n credu mai'r gefnogaeth barhaus a gefais gan y ward fel tîm sy'n gyfrifol am hynny. Cefais fy ystyried yn o'r tîm ac roeddent yn hyblyg iawn yn ystod y pandemig, yn gwneud yn siŵr fy mod yn iawn drwy'r amser a fy mod yn gweithio at fy amcanion dysgu."*
>
> *"Roedd fy amser ar leoliad yn well na'r hyn roeddwn wedi'i ddisgwyl. Roeddwn bob amser gydag aelodau o staff a oedd yn fodlon fy helpu a fy nghefnogi. Fe lwyddais i gyflawni nifer o fy nghymwyseddau ac ehangu fy nysgu."*

6.3.4 Cyfranogiad gweithredol

Cafodd graddau'r pryderon, a oedd yn sylweddol ar adegau, eu lliniaru hefyd gan brofiad y myfyrwyr o seilwaith personol cefnogol. Roed ymdeimlad o bragmatiaeth ynghylch y pandemig a bod cyfranogiad gweithredol y myfyrwyr yn eu hadleoliadau hefyd yn ysbrydoledig:

> *"Rwy'n dilyn y cwrs hwn i ddod yn nyrs. Mae'n anochel y bydd rhwystrau fel hyn yn rhan o fy mhroffesiwn yn y dyfodol ac felly maent yn rhywbeth y dylwn ymdopi â hwy'n ddigyffro ac y dylid eu defnyddio i gynorthwyo datblygiad proffesiynol a dysgu."*


> *"Rwy'n teimlo bod y pandemig COVID-19 wedi bod yn brofiad da yn ystod fy hyfforddiant ac rwy'n falch fy mod wedi cael cyfle i gofrestru ar leoliad estynedig."*

> *"Mae dysgu i fod yn nyrs yn ystod pandemig yn brofiad dysgu eithriadol ac os ydym eisoes yn nyrsys cofrestredig byddai disgwyl i ni weithio. Heb unrhyw wahaniaeth."*

> *"Mae'r cyfle hwn i optio i mewn wedi rhoi syniad i mi o'r profiad o wisgo'r wisg 'las'. Mae wedi bod yn gyfle gwych i gamu ymlaen a bod yn rhan o'r GIG."*

7. Effaith ar yrfa

Roedd cwestiwn 12 yn holi am effaith COVID-19 ar yrfa'r myfyrwyr yn y dyfodol. Dywedodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr eu bod wedi teimlo'n bryderus o leiaf unwaith yr wythnos (57.44%), os nad yn ddyddiol (17.2%).



8. Meysydd datblygu sgiliau hunan-gofnodedig y myfyrwyr yn ystod COVID-19

C13. Pa sgiliau ydych chi'n eu dysgu drwy COVID-19 a fydd yn fuddiol ar ôl i chi gymhwyso?

Roedd adran nesaf yr arolwg (ymateb testun agored) yn canolbwyntio ar y sgiliau y dywedodd yr ymatebwyr eu bod wedi cael cyfle i'w datblygu yn ystod eu hadleoliad. Rhestrir y meysydd amrywiol o ddatblygu sgiliau hunan-gofnodedig y myfyrwyr yn Ffigur 3.

Cyfeiriodd nifer fawr o'r ymarferwyr at ddatblygu lefelau o hyder yn eu harfer o ganlyniad i gael eu hadleoli, gan gynnwys ymdeimlad uwch o wytnwch, hunanymwybyddiaeth a'r gallu i addasu wrth weithio o dan bwysau. Cyfeiriodd yr ymatebwyr yn benodol at ddatblygu sgiliau mewn cysylltiad â 'sgiliau gweithdrefnol', 'proffesiynoldeb' a 'chyfathrebu rhyngbersonol'.

Ffigur 3. Datblygu sgiliau yn ystod adleoliad



8.1 Sgiliau gweithdrefnol

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ystod eang o sgiliau a ddatblygwyd o ganlyniad i atal a rheoli haint a oedd yn cynnwys 'gwisgo a diosg' cyfarpar diogelu a phrofion ffitio gorchuddion wyneb. Soniwyd yn helaeth hefyd am bwysigrwydd ymwybyddiaeth o lwybrau trosglwyddiad COVID-19, a lleihau'r risg. Roedd hyn yn cynnwys cyfranogiad y myfyrwyr yn y gwaith o weithredu gweithdrefnau pandemig, ail-ddylunio ardaloedd wardiau COVID, asesiadau brysbennu, a phrosesau derbyn a rhyddhau.

Cyfeiriwyd hefyd at arfer Techneg Aseptig Di-gyffwrdd (ANTT), hylendid dwylo, profion COVID, materion iechyd a diogelwch a rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig fel meysydd lle datblygwyd sgiliau'r ymatebwyr mewn lleoliadau arfer a oedd wedi'u heffeithio gan COVID.

Cyfeiriwyd yn helaeth hefyd at y bathoffisioleg a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â gofal anadlol unigolion hefyd mewn cyd-destun COVID-19, gan gynnwys materion cydafiachedd, triniaeth pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu (CPAP) a mathau eraill o gymorth anadlu anfewnwthiol, ystyriaethau sy'n gysylltiedig â PPE a gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol, monitro cleifion am ddirywiad, dadebru, rheoli diffyg anadl a gofal diwedd oes.
Soniodd yr ymatebwyr hefyd am ddatblygu sgiliau mewn cysylltiad â blaenoriaethu gofal gan gynnwys cynlluniau triniaeth ac uwchgyfeirio, monitro arwyddion hanfodol,

cofnodion NEWS, gweithdrefnau swabio, gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethu symudiad cleifion a llwybrau sepsis.

Disgrifiodd nifer o ymatebwyr sut roedd amodau'r pandemig wedi darparu cipolwg gwell o ran y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon, deddfwriaethau gofal iechyd a mesurau i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed.

8.2 Proffesiynoldeb:

Gwnaed nifer o gyfeiriadau gan yr ymatebwyr i'r angen am broffesiynoldeb mewn amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym, nid yn unig y ffaith eu bod yn dyst i'r newidiadau ond hefyd deall a gweithredu ar eu harwyddocâd. Roedd yr ymdeimlad hwn o allu addasu yn rhinwedd yr oedd yr ymatebwyr yn ei weld yn eu cydweithwyr ond roedd hefyd yn golygu goblygiadau i'r myfyrwyr o ganlyniad i'w cyfraniad yn cyflenwi gofal mewn tîm aml-broffesiynol. Gallai newid ddigwydd ar lefel unigol neu facro o ganlyniad i ail-ddylunio ac adleoli meysydd gwasanaeth.

Roedd bod yn ymwybodol o'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau mewn amodau pandemig wedi'u rhestru fel agwedd allweddol o werthfawrogiad y myfyrwyr o broffesiynoldeb. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth ehangach hefyd o broffesiynoldeb a datblygiad sgiliau mewn cysylltiad â hyblygrwydd wrth weithio gyda'r anhysbys, a chydnabod cyfyngiadau cymhwysedd unigol yn ogystal â'r angen i "gamu ymlaen" a meithrin hyder a datblygu "gallu i fwrw ati", yn arbennig pan oedd newidiadau amhendant i dimau staff o ganlyniad i COVID-19.

Cyfeiriwyd yn helaeth hefyd at ddatblygu sgiliau yn nhermau datrys problemau a'r angen i feddwl yn feirniadol, yn benodol wrth asesu blaenoriaethau clinigol, rheoli nifer o faterion aciwtedd iechyd yr un pryd, dilyn llwybrau gofal, dirprwyo gwaith i eraill, a deall sut y gwneir penderfyniadau clinigol.

Maes arall o ddatblygu sgiliau a oedd yn gysylltiedig â phroffesiynoldeb oedd cydnabod yr angen am stamina a dyfalbarhad personol, a phwysigrwydd goruchwyliaeth er mwyn cynnal sefydlogrwydd ac iechyd. Roedd gwerthusiad myfyrwyr o'u seilwaith cefnogaeth personol a phroffesiynol a'r profiad o gael eu tywys drwy dechnegau adlewyrchu a meddwlgarwch, wedi cael effaith uniongyrchol ar eu hymdeimlad o les a adroddwyd mewn cysylltiad â hyn.

Un maes pellach o ddatblygu sgiliau a nodwyd yn helaeth oedd effaith emosiynol cynnal proffesiynoldeb wrth ofalu am eraill mewn amodau pandemig. Soniodd yr ymatebwyr am densiwn rhwng yr angen i arddangos ymrwymiad proffesiynol i ofal claf/cleient, yr un pryd â phrofi pryderon ynghylch y disgwyliadau yr oedd hyn yn eu creu iddynt fel myfyriwr wedi'i adleoli.

Er enghraifft, cafwyd sawl cyfeiriad at fyfyrwyr yn derbyn ceisiadau gan gleifion/cleientiaid i ymateb i gwestiynau iechyd a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 neu'n gorfod delio â galwadau ffôn gan berthnasau pryderus, pan oedd angen i'r myfyrwyr ymateb yn bwyllog, sicrhau eu bod yn gwirio unrhyw wybodaeth nad oeddent yn sicr ohoni gyda chydweithwyr, a pheidio ymddangos yn ddiystyriol.

8.3 Cyfathrebu rhyngbersonol:

Cyfeiriodd yr ymatebwyr sawl gwaith at bwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau, yn arbennig o ystyried y cyfyngiadau o wisgo gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelu personol. Roedd dibyniaeth ddwysach ar gyswllt llygaid ac ystumiau, neu angen i "*wenu gyda'r llygaid'*, fel y disgrifiodd un myfyriwr hyn, yn nodwedd gyffredin yn yr ymatebion. Heriwyd yr ymatebwyr i ystyried anawsterau "*cyfathrebu agos o bellter*" a oedd yn galw am ddulliau cyfathrebu amgen.


Rhoddodd yr ymatebwyr enghreifftiau lle cafodd prosesau cyfathrebu eu herio o ganlyniad i wisgo cyfarpar PPE, er enghraifft cyfleu sylwgarwch ac empathi yn ystod asesiadau argyfwng iechyd meddwl, sefyllfaoedd lle'r oedd angen rhoi newyddion anodd i gleifion/cleientiaid a pherthnasau, yr angen i esbonio statws iechyd mewn ffordd glir a syml i bobl ag anableddau dysgu neu unigolion â nam ar eu synhwyrau.

Cyfeiriwyd yn aml hefyd at fyfyrwyr yn gorfod bod yn ymwybodol o'r angen i ymateb i unigolion nad oedd ganddynt brofiad o ddelio â hwy o bosibl yn eu maes arfer penodol hwy y tu allan i amodau pandemig. Mae agwedd bellach o ddatblygu sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar gleifion a oedd yn yr ysbyty ac wedi'u gwahanu oddi wrth eu rhwydweithiau teulu. Soniodd yr ymatebwyr am eu cyfranogiad a'u gwerthfawrogiad o'r gwrthdaro pan oedd angen gwahanu ffisegol er mwyn cyfyngu ar drosglwyddiad y feirws.

Roedd yr enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynnal polisi un rhiant yn ymweld â ward blant, cefnogi menywod yn ystod y cyfnod esgor, trafod statws iechyd a'r posibilrwydd o ryddhau pobl hŷn i'r sector cartrefi gofal, a diweddaru'r perthynas agosaf ar statws iechyd unigolion.

9. Cymhelliant i adleoli eto

Roedd cwestiwn olaf 14 yn ymwneud â chymhelliant y myfyrwyr i adleoli eto pe gofynnwyd iddynt wneud hynny. Dywedodd 69.72% o'r myfyrwyr y byddent yn barod i optio i mewn i drefniant adleoli myfyrwyr eto, gyda 23.15% yn dweud efallai ac 8.07% yn dweud na fyddent yn ystyried hyn eto.



10. Casgliadau a goblygiadau

Mae'r adroddiad cryno hwn wedi cyflwyno ymatebion i arolwg myfyrwyr Addysg a Gwella Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ar 25.07.20. ac a ddaeth i ben ar 01.09.20. Roedd yr arolwg wedi'i anelu at fyfyrwyr a oedd wedi cofrestru gyda Hwb-COVID Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a chawsant eu hadleoli i leoliadau gwasanaethau gofal iechyd o dan drefniadau rhaglen diwygiedig.

Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi, a chyflwynwyd data yn unol â hynny. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y pandemig hwn wedi cael effaith negyddol a chadarnhaol ar brofiad myfyrwyr gofal iechyd yn ystod amodau pandemig. Ymhlith rhai o'r goblygiadau a oedd yn ymwneud â chefnogaeth a llesiant parhaus y myfyrwyr roedd:

i. Dylai fod adolygiad o fesurau ar waith ar draws sefydliadau rhanddeiliaid yng Nghymru i liniaru pryderon myfyrwyr pe byddai'n rhaid ail-gyflwyno'r trefniadau adleoli.

Ar lefel facro, mae darparu gwybodaeth amserol a chywir yn creu goblygiadau ar gyfer rhannu cysylltiadau a gwybodaeth ar draws Cymru gyfan ynghylch uwch fwriadau rheoleiddwyr proffesiynol. Hefyd, pe byddai'r safonau brys yn cael eu hail-gyflwyno, dylid sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid cenedlaethol i adolygu ac ymateb i faterion adleoli sy'n deillio o hyn, mewn cysylltiad â:

- Unrhyw drefniadau contract yn y dyfodol
- Uwch ddulliau cyfathrebu â myfyrwyr
- Cwestiynau Cyffredin sy'n gysylltiedig â COVID-19

ii. Dylai rheoleiddwyr proffesiynol, AEIs a Darparwyr Lleoliadau ystyried effeithiau cyfaddawdu statws lleoli ar iechyd a lles myfyrwyr, goruchwyliaeth ac asesu, o ystyried penderfyniadau polisi a threfniadau cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol yn ystod amodau pandemig.

C.6 (Tabl 1): Er bod yr holl ddatganiadau meintiol wedi derbyn gwerthusiadau cadarnhaol mwyafrifol, roedd nifer sylweddol o fyfyrwyr hefyd a oedd yn nodi bod datganiadau'n 'anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf'. Dylai sefydliadau rhanddeiliaid ddefnyddio canfyddiadau cyffredinol yr arolwg i feincnodi yn erbyn data gwerthuso lleoliadau myfyrwyr lleol a threfniadau sefydliadol perthnasol.

Mae C.12 (Gweler adran 7) yn werth ei nodi oherwydd bod nifer sylweddol o'r myfyrwyr wedi dweud eu bod yn teimlo'n bryderus o leiaf unwaith yr wythnos ynghylch effaith COVID-19 ar eu gyrfa yn y dyfodol, gan atgyfnerthu'r angen am gyfleoedd rhagweithiol i fyfyrwyr drafod eu profiadau a'r angen i gael gwybod am systemau cefnogi sefydliad sydd ar gael.

iii. Dylid cydnabod y cymorth cadarnhaol sy'n cael ei ddarparu gan SAC a Darparwyr Lleoliadau i alluogi dysgu parhaus myfyrwyr a'u cynnydd ar eu rhaglen yn ystod amodau pandemig.

iv. Dylai AaGIC geisio sicrhau sicrwydd pellach gan SAC a Byrddau Iechyd ynglŷn â'r wybodaeth a roddir i fyfyrwyr ar weithdrefnau profi COVID-19.

Mae hyn yn ymwneud â C.8 yr arolwg (gweler adran 5) lle dywedodd 34.68% o fyfyrwyr nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at brawf am COVID-19.

v. *Dylid sicrhau cydnabyddiaeth benodol o amgylchiadau anghyffredin cyfranogiad myfyrwyr gofal iechyd yn y gwaith o gyflenwi gwasanaethau gofal iechyd mewn amodau pandemig (a phrofiad lleoliad parhaus), gan gynnwys myfyrwyr nad oeddent wedi gallu adleoli neu a benderfynodd i optio allan.*

Dylai gwaith monitro parhaus o iechyd a llesiant myfyrwyr fod yn fwyfwy sensitif i effaith hirdymor gweithio a dysgu mewn amodau pandemig. Gallai'r cysyniad o 'dwf ôl-drawmatig' fod yn berthnasol (Lusher et al. 2020), lle bydd unigolion wedi'u huno drwy eu profiad uniongyrchol o 'gyfeillgarwch' o ganlyniad i weithio yn y gwasanaethau COVID-19, ond bod materion seicolegol ac emosiynau'n dod i'r amlwg yn y tymor hwy.

vi. Dylai SAC a Darparwyr Lleoliad nodi'r meysydd o ddatblygiad sgiliau a nodwyd yn yr adroddiad hwn i feincnodi yn erbyn cynnwys COVID-19 mewn cwricwlwm ac yn ystod dysgu arfer.

vii. Dylai AaGIC ymgysylltu â Gwasanaeth llyfrgell GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau banc etifeddol o weithgarwch ymchwil yng Nghymru a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y pandemig a oedd yn canolbwyntio ar effaith addysg gofal iechyd COVID-19.

Cyfeiriadau

Lusher, J., Murrell, A., Mafuva, C., Awire, E. (2020) Covid-19 pandemic and the surge of panic attacks among NHS nursing staff: An ethnographical perspective. *Journal of Advanced Nursing* 76, 2970-2971.